



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020



Rhagair

Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol a'r un olaf yn ymwneud â'n Cynllun Cydraddoldeb 2016-2020, ac mae'n amlygu'r gwaith yr ydym wedi'i wneud i ymgysylltu â'n cymunedau, i gefnogi anghenion amrywiol ein staff, ac i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yn ein sefydliad.

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i ni ddathlu rhai o'n llwyddiannau o ran gwella Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a hynny yn ein sefydliad ac yn y cymunedau yr ydym yn falch o'u gwasanaethu. Yn bersonol, teimlaf ein bod, fel sefydliad, yn parhau i symud ymlaen yn y maes hwn, ac rwy'n hynod o falch bod llawer o'r gwaith hwn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i lawer yn ein cymunedau lleol.



Chris Davies QFSM MBA

Y Prif Swyddog Tân

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar yr adroddiad hwn, a hynny o ran yr hyn sydd ynddo a'r hyn nad yw efallai'n ei wneud yn ddigon clir am y gwaith yr ydym wedi'i wneud.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os ydych am wybod mwy am yr amcanion sydd yn y Cynllun hwn, cysylltwch â:

Mrs Alison Thomas

Ymgynghorydd Cydraddoldeb,

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru,
Pencadlys y Gwasanaeth, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP

Ffôn: 01267 226839 | **E-bost:** al.thomas@mawwfire.gov.uk

Mae'r Cynllun hwn ar gael yn Gymraeg a gall hefyd fod ar gael mewn fformatau ac ieithoedd eraill. Os hoffech gael copi o'r Cynllun hwn mewn iaith neu fformat arall, defnyddiwch y manylion cyswllt a nodir uchod.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol ac Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan, neu gellir gofyn amdanynt ar ffurf copi caled ym mha bynnag fformat sy'n ofynnol.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Pwy ydyn ni	4
Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau	6
Y Sefyllfa Bresennol	8
Amcan 1	8
Amcan 2	9
Amcan 3	10
Amcan 4	10
Amcan 5	11
Amcan 6	12
Amcan 7	13
Amcan 8	13
Y Dyfodol	17
Atodiadau:	14 - 39
Data Staff – Cyffredinol	
Data Staff – yn ôl Data Amser Cyflawn Lefel Reoli	
Data Ar Alwad	
Data Staff Cymorth	
Data Hyrwyddo	
Data Trosglwyddo	
Data Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref	
Data Ymgysylltu/Ymgynghori	
Data Ymateb i Ddigwyddiadau	
Sut i gysylltu â ni	

75% wedi'i ailgylchu

Cyhoeddwyd ar bapur mae 75% ohono wedi'i ailgylchu

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020, ac fe'i cyflwynir o dan ein gofynion adrodd statudol, a bennir gan reoliad 16 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Beth y mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ei olygu i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru [GTACGC]?

Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn faterion busnes allweddol i'r Gwasanaeth; a'r prif ffactorau busnes sy'n ei sbarduno i gymeradwyo strategaethau sy'n ymwneud ag amrywiaeth yw:

- Rheoli risg ac enw da.
- Gwella perfformiad unigolion a busnesau.
- Datblygu diwylliant creadigol ac arloesol.
- Diwallu anghenion ein cymunedau.
- Denu, cadw a datblygu gweithwyr.
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth.

Mae cyfle cyfartal yn cwmpasu'r modd y mae'r Gwasanaeth nid yn unig yn darparu gwasanaethau, ond hefyd yn sicrhau mynediad at wasanaethau a gwybodaeth, yn cynnwys pobl mewn penderfyniadau, ac yn sicrhau ei fod yn cynnal asesiadau risg ac yn craffu ar bolisiau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth o ran cydraddoldeb yn barhaus, a hynny er mwyn bod yn sefydliad sy'n ymdrechu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn unrhyw grŵp/grwpiau neu unigolyn.



Yr Awdurdod a'r Gwasanaeth

Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig, sy'n cynrychioli wardiau unigol mewn chwe Awdurdod Unedol cyfansoddol, ac sy'n ffurfio ardal ein gwasanaeth.

Yr Awdurdodau Unedol yw:



Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, ac ymateb i argyfyngau yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'r sefydliad yn cyflogi dros 1,300 o aelodau o staff mewn gwahanol gategoriâu cyflogaeth, h.y. Staff Gweithredol, Staff Rheoli a Staff Cymorth, ac mae'n ymestyn dros ryw 4,500 milltir sgwâr – bron dwy ran o dair o Gymru, gan wasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau yn ei ardaloedd arfordirol, trefol a gwledig.

Rôl yr Awdurdod Tân yw:

Rôl Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân, yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol, ac yn arbennig:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994;
- Gorchymyn Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995 fel y'i diwygiwyd, a sefydlodd ddarpariaeth Awdurdod Tân Cyfunol ar gyfer ardaloedd Sirol newydd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe;
- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005;
- Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
- Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2015;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu delio â galwadau am gymorth mewn modd effeithiol, a hynny mewn achos o dân neu argyfwng arall.

- Cytuno ar y Cynlluniau Gwella Blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf a chyfraniad y cynghorau cyfansoddol.
- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf a delio ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfraniadau atodol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu pobl, eiddo a'r amgylchedd rhag tân ac argyfyngau eraill, a hefyd i ddarparu gwasanaethau dyngarol eraill. Cyflawnir hyn trwy ddarparu gwybodaeth ar gyfer y gymuned a'i chynnwys yn y gwaith, ynghyd â gweithio mewn partneriaeth ag eraill i greu ethos y Cymunedau Mwy Diogel; mae hefyd yn cynnwys darparu gwasanaeth gwerth am arian i'r rhai sy'n byw neu'n gweithio yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, neu sy'n ymweld â'r ardal.

Rôl yr Awdurdod yw darparu gwasanaethau ataliol rhagweithiol; a gwasanaethau tân ac achub ymatebol i bobl y Canolbarth a'r Gorllewin mewn ffordd agored, dryloyw a chosteffeithiol; gan weithredu er budd gorau Canolbarth a Gorllewin Cymru a'u dinasyddion yn gyffredinol. Wrth gyflawni ei rôl, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ceisio gweithredu er lles ei holl awdurdodau cyfansoddol a'u dinasyddion, ac, wrth wneud hynny, mae'n rhoi'r lles ar y cyd uwchlaw unigolion neu fuddiannau grwpiau penodol, yn unol ag egwyddorion gorau llywodraethu lleol democrataidd.

Arweinir Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan y Prif Swyddog Tân, sydd â chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol dros y Gwasanaeth, ac sy'n ei reoli'n gorfforaethol. Ef hefyd yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.



— “ —
Ein Gweledigaeth:

**Bod yn arweinydd byd ym
maes ymateb i argyfwng a
diogelwch cymunedol**

Ein Cenhadaeth:

**Ymgysylltu, Cysylltu, Datblygu
ac Ysbrydoli pobl i ddarparu
Gwasanaeth rhagorol**

Ein Gwerthoedd:

- **Gwneud y peth iawn**
- **Trin pobl â pharch**
- **Perfformio'n rhagorol**

— ” —

Byddwn yn cyflawni ein Gweledigaeth, ein Cenhadaeth a'n Gwerthoedd trwy weithio tuag at ein pedwar Nod Strategol a Hamcanion Gwella a Lles yn 2020/2021



**EIN
POBL**



**EIN
CYMUNEDAU**



**EIN
HAMGYLCHEDD**



**EIN
DYFODOL**



Y Sefyllfa Bresennol

Dyletswyddau Penodol Cymru y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

Mae'r adran hon yn dangos yr hyn yr ydym wedi ei wneud, a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, mewn perthynas â Dyletswyddau Penodol Cymru, ac mae'n ategu, yn hytrach na dyblygu, yr wybodaeth yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Amcan 1

Sicrhau bod gennym y systemau angenrheidiol ar waith i gasglu a phrosesu'r data y mae arnom eu hangen.

Rheswm

Mae targed ein gwaith ataliol yn seiliedig ar gyfres gydnabyddedig o dybiaethau o ran pa grwpiau yn ein cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Wrth i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a natur y risgiau hyn newid, mae'n bwysig ein bod yn casglu ac yn dadansoddi'r data priodol a fydd yn ein galluogi i brofi'r tybiaethau hirsefydledig hyn, ynghyd â gofalu ein bod yn mynd ati mewn modd parhaus i werthuso pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf, a hynny fel ein bod yn gallu targedu ein hadnoddau a mireinio ein gwasanaethau i sicrhau eu bod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Mae prosesau wedi cael eu sefydlu i weithredu'r broses o hyrwyddo a gwella'r meysydd hynny a nodwyd yn ein hadolygiad o'n partneriaethau.
- Er mwyn cael gwybod am ein meysydd risg uchel, cesglir data gan bartneriaid ac yn fewnol, a chaiff ein cynlluniau cyflawni eu diwygio i ddiwallu anghenion y cymunedau yr effeithir arnynt.
- Edrychir ar dueddiadau a, phan gânt eu nodi, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i roi cynlluniau ar waith i liniaru neu ddileu'r risg i'n cymunedau.
- Casglwyd data mwy cadarn a chyfredol o ran diogelwch ar y ffyrdd, a gweithiwyd gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a diogelwch ar y ffyrdd.
- Crëwyd cyfleoedd a chysylltiadau newydd mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cyflawni ein hamcanion yn ogystal â chefnogi amcanion ein partneriaid.
- Parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid Trydydd Sector er mwyn sicrhau bod ein cymunedau mor ddiogel ag y gallant fod, a hynny trwy rannu gwybodaeth a data ynghylch grwpiau ac unigolion y nodwyd eu bod yn wynebu risg.

Amcan 2

Parhau i wella dealltwriaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y gweithle.

Rheswm

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn darparu Hyfforddiant Cynefino i'r holl weithwyr er mwyn darparu ymwybyddiaeth gychwynnol o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r holl bersonél yn cael hyfforddiant diweddarau bob tair blynedd.

Fodd bynnag, fel darparwr gwasanaeth sector cyhoeddus, mae'n bwysig bod ein gweithwyr yn cael hyfforddiant manylach a fydd yn eu galluogi i lwyr werthfawrogi'r amrywiaeth eang o faterion y gallent eu hwynebu wrth reoli perthnasoedd yn y gweithle, yn ogystal â'r rheiny sy'n eu hwynebu wrth iddynt ymateb i ddigwyddiadau ac ymgymryd â gwaith ataliol yn eu cymunedau.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Cyflwynwyd sesiynau ychwanegol gyda gweithwyr Cyflenwi Hyfforddiant ynghylch cefnogi niwroamrywiaeth yn y gweithle a sut i wneud addasiadau addas yn hyn o beth ar gyfer cydweithwyr sydd â dyslecsia, dyspracsia ac awtistiaeth.
- Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio i godi ymwybyddiaeth gweithwyr ynghylch materion megis Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol, dementia, a rheoli'r menopos yn y gweithle, ac wedi llunio canllawiau cyfathrebu ar gyfer staff ynghylch y ffordd orau o gyfathrebu â phobl sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig.
- Yn unol â'n hymrwymiad i'r Siarter Dying to Work, cafodd ein Staff Adnoddau Dynol a detholiad o Reolwyr o bob rhan o'r sefydliad hyfforddiant gan Gymorth Cancer MacMillan ynghylch rheoli gweithwyr sydd wedi cael diagnosis o salwch angheuol.
- Bu rhai o'n rheolwyr a oedd newydd eu dyrchafu mewn sesiwn gan Red Shiny Apple Ltd ynghylch y gofyniad i gael a chwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Amcan 3

Sicrhau bod yr holl ddulliau cyfathrebu allanol a gynhyrchir gan y sefydliad yn hygyrch i bawb.

Rheswm

Nododd yr adborth a gafwyd yn rhan o ymgynghoriad diweddar y Gwasanaeth ynghylch amcanion ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol nad oedd yr wybodaeth a oedd yn cael ei chyhoedd gan y sefydliad yn hygyrch i bawb oedd â buddiant.

Felly, mae angen ystyried hyn ymhellach er mwyn sicrhau ein bod yn teilwra ein cyhoeddiadau i sicrhau bod cynulleidfa mor eang â phosibl yn gallu eu gweld.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Am y tro cyntaf eleni, rydym wedi cynnwys fersiwn Hawdd ei Deall o'r Cynllun Corfforaethol Drafft yn ein cyfres o lenyddiaeth ymgynghori, a ddefnyddir mewn digwyddiadau sioeau teithiol.
- Rydym wedi cynnal adolygiad o'r wefan gorfforaethol newydd yn unol â'r canllawiau rheoleiddio a ddarperir i sicrhau ei bod yn cydymffurfio cyn ei lansio.

Amcan 4

Gweithio i sicrhau bod gennym y gweithlu gorau posibl, a hynny trwy sicrhau bod pob rhan o'r gymuned yn ystyried Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyflogwr o ddewis.

Rheswm

Bydd sicrhau proffil mwy amrywiol i'r gweithlu yn galluogi'r Gwasanaeth i wella'r gwasanaeth ymhellach, ac yn adlewyrchu cymunedau lleol yn well.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Adolygwyd y ffordd yr ydym, ar y cyd â'n partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn darparu profiad gwaith ar hyn o bryd, a hynny er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu mewn modd effeithiol â'n gweithlu yn y dyfodol. Byddwn yn treialu opsiwn profiad gwaith ehangach a mwy rhyngweithiol a chynhwysol yn ystod Haf 2020.

- Cyflwynwyd lwfans Absenoldeb Gofal Maeth ar gyfer gweithwyr sy'n dymuno maethu plentyn ac y mae angen iddynt fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi sy'n gysylltiedig â hynny.
- Addawyd ein hymrwymiad i'r Ymgyrch He for She.
- Daliwyd ati i fynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys Cwpan Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin a Pride Abertawe a Llanelli, gyda'r nod o hyrwyddo'r Gwasanaeth fel cyflogwr o ddewis i bawb sy'n byw yn ein cymunedau.
- Parhau â'n rhaglen i adnewyddu'r gweithle, a fydd yn cefnogi gweithio hyblyg yn well, yn ogystal â gofynion eraill y gweithlu modern.
- Parhau i gynnal diwrnodau ymwybyddiaeth targededig sy'n cael eu hanelu at grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn y Gwasanaeth ar hyn o bryd.
- Parhau i ddatblygu'r berthynas rhwng ein rhwydweithiau staff cyfredol a'r Grŵp Gweithlu Cynhwysol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n staff a'n cymunedau.

Amcan 5

Sicrhau bod y Gwasanaeth wrth galon ein cymunedau lleol, ac achub ar y cyfle hwnnw i hyrwyddo goddefgarwch a pharch yn y cymunedau hynny.

Rheswm

Mae gan gymunedau lleol barch mawr at y Gwasanaeth Tân ac Achub ac, o ganlyniad, mae mewn lle da i gael dylanwad cadarnhaol ar y rheiny sy'n byw yn ei ardal. Felly, mae'n bwysig ein bod yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo goddefgarwch a pharch wrth ryngweithio â gwahanol grwpiau.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Daliwyd ati i ehangu ein trefniadau gweithio mewn partneriaeth i sicrhau ein bod yn gallu cael mynediad at y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ac ymgysylltu â nhw.
- Daliwyd ati i hyrwyddo negeseuon diogelwch allweddol, yn enwedig mewn perthynas â dathliadau crefyddol fel Ramadan, Diwali a Hannukah.
- Gweithiwyd mewn partneriaeth â'n partneriaid sector cyhoeddus ledled y rhanbarth er mwyn ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, gan sicrhau y cafodd pob sector gyfle i ddylanwadu ar ein hamcanion.
- Aethpwyd ati i gynnal a gwella ein hymgysylltiad â grwpiau ym mhob un o'n hardaloedd Rheoli, a hynny trwy fynychu, cynnal a hwyluso digwyddiadau i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol.
- Aethpwyd ati i gefnogi gwaith cydlyniant cymunedol y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig, a chymerodd tîm o bersonél y Gwasanaeth ran yn nhrnamaint pêl-droed y Cwpan Cydlyniant Cymunedol.

Amcan 6

Sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn fwy diogel trwy gynnal ymweliadau diogelwch yn y cartref targededig.

Rheswm

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ymdrin â diogelwch cymunedol mewn modd cyfannol er mwyn gwella lechyd a Lles dinasyddion. Mae cymunedau diogel ac iach yn gwella cyfansoddiad economaidd-gymdeithasol ardaloedd lleol, sef rhan o ddyheadau Llywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Mae ein hymagwedd Diogel ac Iach yn dal i gael ei datblygu yn seiliedig ar ofynion ein partneriaid a'r data a ddaw i law, ac mae'r holl staff wedi cael eu hyfforddi i'w chymhwyso ac ynghylch ei bwriad.
- Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid cyfredol; a thrwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, rydym yn nodi partneriaid a chyfleoedd newydd i gyflawni ein hamcanion.
- Datblygwyd amrywiaeth o fentrau cyfannol yn ymwneud â diogelwch yn y cartref trwy Gynlluniau Lles Drafft y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, a hynny yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Lle bo hynny'n ofynnol, mae'r rhain yn unigryw i ofynion ac anghenion pob cynllun.
- Ehangwyd ein prosesau rhannu gwybodaeth i ragor o grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed yn ein cymunedau, neu ar eu rhan.

Amcan 7

Datblygu cyfleoedd i ymgysylltu â'n gweithlu er mwyn sicrhau bod pawb yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys, a sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo ym mhob maes.

Rheswm

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i fabwysiadu diwylliant sy'n galluogi'r holl bersonél i fod yn drwm iddynt eu hunain yn y gweithle. Dim ond gwella enw da'r Gwasanaeth fel cyflogwr o ddewis, a hynny ym mhob rhan o gymdeithas, ynghyd â gwella'r gwasanaeth a ddarparwn, a all gweithwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Adolygwyd Cylch Gorchwyl ein Rhwydweithiau Staff sefydledig er mwyn eu cysoni'n well â'r Grŵp Gweithlu Cynhwysol.
- Adolygwyd yr opsiynau gweithio hyblyg presennol sydd ar gael i'n gweithwyr, yn unol ag arfer gorau.
- Daliwyd ati i weithio tuag at gyflawni'r amcanion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu'r Grŵp Gwasanaeth Tân Cynhwysol.
- Daliwyd ati i gefnogi presenoldeb gweithwyr yng Nghynhadledd Flynyddol Stonewall a Rhaglenni Cynghreiriaid LGBT, yn ogystal â digwyddiadau Networking Women in the Fire Service.
- Daliwyd ati i annog Grwpiau Cymunedol a Gwasanaethau Cyhoeddus eraill/Asiantaethau Trydydd Sector i ddefnyddio'r cyfleusterau cyfarfod sydd gennym yn ein Gorsafoedd Tân, a hynny am ddim. Mae grwpiau sydd wedi manteisio ar y cyfleuster hwn yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys Cymorth Canser Macmillan, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, a Calan, yn ogystal â llawer o'n partneriaid sector cyhoeddus.
- Codwyd ymwybyddiaeth yn fewnol trwy wybodaeth a ddosbarthwyd yn rhan o'r gwaith o gefnogi a hyrwyddo dyddiadau allweddol yn y Calendr Amrywiaeth.

Amcan 8

Sefydlu egwyddorion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau allweddol er mwyn eu prif ffrydio i waith o ddydd i ddydd.

Rheswm

Er mwyn cyflawni ei ymrwymiad parhaus i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, rhaid i'r Gwasanaeth sicrhau bod yr holl brosesau mewnol ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau yn gyson â'i broses o wneud penderfyniadau strategol.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Trwy ddarparu'r hyfforddiant priodol, sicrhawyd bod holl Aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol yn meddu ar wybodaeth ddigonol am faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac yn ddigon ymwybodol ohonynt, i'w galluogi i graffu ar benderfyniadau a chamau gweithredu'r Gwasanaeth a, lle bo angen, eu herio.
- Darparwyd Hyfforddiant Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb i Reolwyr ledled y Gwasanaeth gan Red Shiny Apple Ltd.

STAFF DATA (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020)

Rhywedd (Staff Cyfredol)	
Benyw	213
Gwryw	1073
Cyfanswm	1286

Anabledd (Wedi'i Ddatgan) (Staff Cyfredol)	
Benyw	7
Gwryw	32
Cyfanswm	39

Oed (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
16-24	13	78
25-34	61	274
35-44	61	313
45-54	45	320
55-64	28	81
65+	5	7
Cyfanswm	213	1073

Hil/Ethnigrwydd (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Tsieineaidd	0	1
Gwyn ac Asiaidd	0	2
Du Affricanaidd	0	1
Du Caribiaidd	0	1
Du Arall	0	1
Bangladeshaid	1	1
Indiaidd	0	1
Gwyn Prydeinig	196	1032
Gwyn Arall	1	9
Cymysg Arall	0	3
Gwell ganddynt beidio â dweud	15	21
Cyfanswm	213	1073

Crefydd neu Gred (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Cristnogaeth	82	434
Islam	0	2
Bwdhaidd	0	2
Sikh	0	0
Arall	1	8
Dim	69	354
Gwell ganddynt beidio â dweud	61	273
Cyfanswm	213	1073

Statws Priodasol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Sengl	90	462
Priod	103	537
Partneriaeth	3	11
Wedi ysgaru	14	49
Gweddw	3	3
Partneriaeth Sifil	0	3
Wedi gwahanu	0	0
Arall	0	7
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	1
Cyfanswm	213	1073

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Ydy	187	903
Nac ydy	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	26	170
Cyfanswm	213	1073

Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Ie	11	Amh.
Na	202	Amh.
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	Amh.

Cyfeiriadedd Rhywiol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Deurywiol	4	7
Hoyw/Lesbiaidd	3	2
Heterorywiol	151	818
Trawsrywiol	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	55	246
Cyfanswm	213	1073

DATA STAFF yn ôl Lefel Reoli (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020)

Rhywedd		Rheolwr ardal [+]	Rheolwr gorsaf a rheolwr Grŵp [07-15]	Rheolwr Criw a Rheolwr Gwylfa [04-06]	Diffoddwr Tân [01-03]
Benyw		1	39	76	101
Gwryw		9	91	405	654
	Cyfanswm	10	130	481	755

System Ddyletswydd					
Amser Cyflawn	Benyw	0	5	9	21
	Gwryw	7	60	144	150
	Cyfanswm	7	65	153	171
Rheolaeth	Benyw	1	2	7	10
	Gwryw	0	0	3	4
	Cyfanswm	1	2	10	14
Cymorth	Benyw	0	32	58	34
	Gwryw	2	31	49	13
	Cyfanswm	2	63	107	47
Ar Alwad	Benyw	0	0	2	36
	Gwryw	0	0	209	487
	Cyfanswm	0	0	211	523



RECRIWTIO AMSER CYFLAWN (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020)

Rhywedd	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 18/19
Benyw	176	6
Gwryw	1059	53
Gwell ganddynt beidio â dweud	7	0
Cyfanswm	1242	59

Anabledd (Wedi'i ddatgan)	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 18/19
Oes	24	0
Nac oes	1204	59
Gwell ganddynt beidio â dweud	14	0
Cyfanswm	1242	59

Oed (Staff Cyfredol)	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 18/19
O dan 18	7	0
18-24	321	18
25-40	819	39
41-59	92	2
Gwell ganddynt beidio â dweud	3	0
Cyfanswm	1242	59

Hil/Ethnigrwydd	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 18/19
Du Affricanaidd	3	*
Du Caribiaidd	3	*
Du Arall	3	*
Asiaidd Bangladeshaidd	1	*
Asiaidd Pacistanaidd	1	*
Asiaidd Indiaidd	1	*
Asiaidd Arall	0	*
Prydeinig	293	22
Tsieineaidd	0	*
Ewropeaidd	9	*
Teithiwr	1	*
Cymysg (Du/Gwyn)	5	*
Cymysg (Asiaidd/Du)	0	*
Cymysg (Asiaidd/Gwyn)	2	*
Cymysg (Arall)	3	*
Gwyn	839	34
Gwell ganddynt beidio â dweud	78	*
Arall	0	*
Cyfanswm	1242	59

Crefydd neu Gred	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 18/19
Cristnogaeth	334	18
Islam	7	0
Bwdhaidd	5	0
Hindŵaeth	0	0
Iddewiaeth	0	0
Arall	11	0
Dim	808	34
Gwell ganddynt beidio â dweud	77	7
Cyfanswm	1242	59

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 18/19
Ydy	1201	59
Nac ydy	2	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	39	0
Cyfanswm	1242	59

Cyfeiriadedd Rhywiol	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 18/19
Deurywiol	59	6
Hoyw/Lesbiaidd	19	*
Heterorywiol	1056	49
Trawsrywiol	27	*
Gwell ganddynt beidio â dweud	81	*
Cyfanswm	1242	59

Sgiliau Iaith Gymraeg	Wedi Cwblhau Cam 1	Penodwyd yn 18/19
Dysgwr	269	18
Canolradd	98	4
Yn rhugl	206	13
Dim	663	24
Gwell ganddynt beidio â dweud	6	0
Cyfanswm	1242	59

* yn dynodi niferoedd yn llai na 5 mewn achosion lle gallai fod potensial i adnabod.

YMADAWYR O BLITH STAFF LLAWN-AMSER

(01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020)

Rhywedd		
Benyw	0	
Gwryw	40	

Anabledd		
Benyw	0	
Gwryw	1	

Oed	Benyw	Gwryw
16-24	0	1
25-34	0	3
35-44	0	5
45-54	0	11
55-64	0	20
65+	0	0

Hil/Ethnigrwydd	Benyw	Gwryw
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	0
Bangladeshaidd	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	0	39
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	0

Crefydd neu Gred	Benyw	Gwryw
Cristnogaeth	0	15
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	1
Sikh	0	0
Arall	0	0
Dim	0	5
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	19

Statws Priodasol	Benyw	Gwryw
Sengl	0	7
Priod	0	27
Wedi ysgaru	0	3
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi gwahanu	0	0
Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	0

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni	Benyw	Gwryw
Ydy	0	30
Nac ydy	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	10

Cyfeiriadedd Rhywiol	Benyw	Gwryw
Deurywiol	0	0
Hoyw/Lesbiaidd	0	0
Heterorywiol	0	23
Trawsrywiol	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	17

Y rheswm dros adael	Benyw	Gwryw
Ymddeoliad	0	31
Marwolaeth	0	1
Afiechyd	0	0
Ymddiswyddo	0	1
Diswyddo	0	1
Terfynu Contract	0	0
Trosglwyddo i Wasanaeth Tân Arall	0	6

* yn dynodi niferoedd yn llai na 5 mewn achosion lle gallai fod potensial i adnabod.

RECRIWTIO STAFF AR ALWAD (01 Ebrill 2019-31 Mawrth 2020)

Rhywedd	
Benyw	19
Gwryw	94
Cyfanswm	113

Anabledd (Wedi'i ddatgan)	
Benyw	0
Gwryw	1
Cyfanswm	1

Oed	Benyw	Gwryw
16 - 24	10	23
25 - 34	7	50
35 - 44	2	13
45 - 54	0	7
55 - 64	0	1
65+	0	0
Cyfanswm	19	94

Hil/Ethnigrwydd	Benyw	Gwryw
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	1
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	17	87
Gwyn Arall	2	2
Cymysg Arall	0	2
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	2
Cyfanswm	19	94

Crefydd neu Gred	Benyw	Gwryw
Cristnogaeth	7	29
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	0
Sikh	0	0
Arall	0	1
Dim	11	53
Gwell ganddynt beidio â dweud	1	11
Cyfanswm	19	94

Statws Priodasol	Benyw	Gwryw
Sengl	12	47
Priod	1	23
Partnered	2	12
Wedi ysgaru	1	2
Gweddw	0	1
Partneriaeth Sifil	2	4
Wedi gwahanu	1	2
Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	3
Cyfanswm	19	94

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni	Benyw	Gwryw
Ydy	19	92
Nac ydy	0	1
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	1
Cyfanswm	19	94

Beichiogrwydd a Mamolaeth	Benyw	Gwryw
Ie	0	Amh.
Na	19	Amh.
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	Amh.
Cyfanswm	19	Amh.

Cyfeiriadedd Rhywiol	Benyw	Gwryw
Deurywiol	3	1
Hoyw/Lesbiaidd	0	3
Heterorywiol	15	80
Trawsrywiol	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	1	10
Cyfanswm	19	94

* yn dynodi niferoedd yn llai na 5 mewn achosion lle gallai fod potensial i adnabod

YMADAWYR O BLITH STAFF AR ALWAD (01 Ebrill 2019-31 Mawrth 2020)

Rhywedd (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	
Benyw	3
Gwryw	1

Anabledd (Wedi'i ddatgan) (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	
Benyw	1
Gwryw	0

Oed (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	Benyw	Gwryw
16-24	0	0
25-34	0	0
35-44	2	1
45-54	0	0
55-64	1	0
65+	0	0

Hil/Ethnigrwydd (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	Benyw	Gwryw
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	0
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	3	1
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	0

Crefydd neu Gred (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	Benyw	Gwryw
Cristnogaeth	2	0
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	0
Sikh	0	0
Arall	0	1
Dim	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	1	0

Statws Priodasol (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	Benyw	Gwryw
Sengl	0	1
Priod	3	0
Wedi ysgaru	0	0
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi gwahanu	0	0
Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	0

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni	Benyw	Gwryw
Ydy	2	1
Nac ydy	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	1	0

Cyfeiriadedd Rhywiol (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	Benyw	Gwryw
Deurywiol	0	0
Hoyw/Lesbiaidd	0	0
Heterorywiol	2	1
Trawsrywiol	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	1	0

Cyflogaeth Wedi Dod i Ben	Benyw	Gwryw
Ymddeoliad	1	0
Marwolaeth	0	0
Afiechyd	0	0
Ymddiswyddo	2	1
Diswyddo	0	0
Terfynu Contract	0	0

* yn dynodi niferoedd yn llai na 5 mewn achosion lle gallai fod potensial i adnabod

RECRIWTIO STAFF CYMORTH (01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020)

Rhywedd	Cyfanswm y Ceisiadau	Llwyddiannus
Benyw	177	22
Gwryw	168	21
Cyfanswm	345	43

Anabledd (Wedi'i ddatgan)	Cyfanswm y Ceisiadau	Llwyddiannus
Anabledd	11	2
Dim Anabledd	319	35
Gwell ganddynt beidio â dweud	15	6
Cyfanswm	345	43

Oed	Cyfanswm y Ceisiadau	Llwyddiannus
O dan 18	0	0
18-24	38	3
25-40	152	23
41-59	120	15
60+	11	2
Gwell ganddynt beidio â dweud	24	0
Cyfanswm	345	43

Hil/Ethnigrwydd	Cyfanswm y Ceisiadau	Llwyddiannus
Lleiafrif Ethnig	9	0
Gwyn	324	36
Gwell ganddynt beidio â dweud	12	7
Cyfanswm	345	43

Crefydd neu Gred	Cyfanswm y Ceisiadau	Llwyddiannus
Catholig	0	0
Cristnogaeth	17	9
Hindŵaidd	0	0
Mwslimaidd	0	0
Agnostig	1	0
Iddewig	0	0
Pagan	0	0
Methodist	0	0
Arall	0	0
Dim	25	9
Gwell ganddynt beidio â dweud	302	25
Cyfanswm	345	43

Statws Priodasol	Cyfanswm y Ceisiadau	Llwyddiannus
Sengl	144	6
Priod	122	7
Wedi gwahanu	3	0
Wedi ysgaru	10	0
Partneriaeth Sifil	6	0
Arall	39	1
Gwell ganddynt beidio â dweud	21	2
Cyfanswm	345	43

Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm y Ceisiadau	Llwyddiannus
Deurywiol	7	0
Hoyw	2	0
Heterorywiol	290	31
Lesbiaidd	1	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	45	12
Cyfanswm	345	43

Y Gymraeg	Cyfanswm y Ceisiadau	Llwyddiannus
Cymraeg Lefel 1	114	4
Cymraeg Lefel 2	108	11
Cymraeg Lefel 3	11	0
Cymraeg Lefel 4	31	3
Cymraeg Lefel 5	54	8
Gwell ganddynt beidio â dweud	27	17
Cyfanswm	345	43

YMADAWYR O BLITH STAFF CYMORTH (01 Ebrill 2019-31 Mawrth)

Rhywedd (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)		
Benyw	10	
Gwryw	7	

Anabledd (Wedi'i ddatgan) (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)		
Benyw	0	
Gwryw	0	

Oed (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	Benyw	Gwryw
16-24	1	2
25-34	4	3
35-44	1	0
45-54	2	2
55-64	2	0
65+	0	0

Hil/Ethnigrwydd (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	Benyw	Gwryw
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	0
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	8	6
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	2	1

Crefydd neu Gred (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	Benyw	Gwryw
Cristnogaeth	4	0
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	0
Sikh	0	0
Arall	0	0
Dim	3	4
Gwell ganddynt beidio â dweud	3	3

Statws Priodasol (Cyflogaeth Wedi Dod i Ben)	Benyw	Gwryw
Sengl	5	5
Priod	4	1
Wedi ysgaru	1	0
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi gwahanu	0	0
Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	1

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni	Benyw	Gwryw
Ydy	6	5
Nac ydy	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	4	2

Cyflogaeth Wedi Dod i Ben	Benyw	Gwryw
Ymddeoliad	1	0
Marwolaeth	0	0
Afiechyd	0	0
Ymddiswyddo	7	5
Diswyddo	1	1
Terfynu Contract/Diwedd Contract Dros Dro	1	1

* yn dynodi niferoedd yn llai na 5 mewn achosion lle gallai fod potensial i adnabod.

DATA DYRCHAFIADAU (01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020)

Rhywedd (Staff Cyfredol)	
Benyw	10
Gwryw	51

Anabled (Wedi'i ddatgan) (Staff Cyfredol)	
Benyw	0
Gwryw	2

Oed (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
16-24	0	0
25-34	6	8
35-44	3	23
45-54	0	20
55-64	1	0
65+	0	0

Hil/Ethnigrwydd (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Tsieineaidd	0	1
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	0
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	10	49
Gwyn Arall	0	1
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	0

Crefydd neu Gred (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Cristnogaeth	2	23
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	1
Sikh	0	0
Arall	0	2
Dim	4	12
Gwell ganddynt beidio â dweud	4	13

Statws Priodasol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Sengl	5	13
Priod	5	37
Partnered	0	0
Wedi ysgaru	0	0
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi gwahanu	0	0
Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	1

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Ydy	9	43
Nac ydy	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	1	8

Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Ydy	0	Amh.
Nac ydy	10	Amh.
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	Amh.

Cyfeiriadedd Rhywiol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Deurywiol	0	0
Hoyw/Lesbiaidd	1	0
Heterorywiol	6	39
Trawsrywiol	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	3	12

* yn dynodi niferoedd yn llai na 5 mewn achosion lle gallai fod potensial i adnabod.

DATA TROSLWYDDO (01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020)

Rhywedd (Staff Cyfredol)	
Benyw	0
Gwryw	24

Anabledd (Wedi'i ddatgan)	
Benyw	0
Gwryw	0

Oed (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
16-24	0	0
25-34	0	0
35-44	0	9
45-54	0	15
55-64	0	0
65+	0	0

Hil/Ethnigrwydd (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0	0
Bangladeshaid	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	0	24
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	0

Crefydd neu Gred (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Cristnogaeth	0	13
Islam	0	0
Bwdhaidd	0	0
Sikh	0	0
Arall	0	0
Dim	0	5
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	6

Statws Priodasol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Sengl	0	9
Priod	0	10
Wedi ysgaru	0	5
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi gwahanu	0	0
Arall	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	0

Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Ydy	0	19
Nac ydy	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	5

Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Ydy	0	Amh.
Nac ydy	0	Amh.
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	Amh.

Cyfeiriadedd Rhywiol (Staff Cyfredol)	Benyw	Gwryw
Deurywiol	0	0
Hoyw/Lesbiaidd	0	0
Heterorywiol	0	18
Trawsrywiol	0	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	6

Data Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref - Cyfanswm o 13,838 o Archwiliadau (01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020)

Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref	CYFANSWM
Arferion Coginio Anniogel?*	637
Smygu yn yr Eiddo?	2959
Yn byw ar eu pen eu hunain?	5421
Yn defnyddio ocsigen?	342
Cymorth i Ddianc?	2194
Tân Bwriadol yn erbyn yr Eiddo?	244
Tanau Blaenorol?	536
Alcohol neu Gyffuriau?	425
Cyffuriau ar Bresgripsiwn?	1274
Llety o Safon Annigonol?	616
Problemau Iechyd Meddwl?	2169
Problem o ran Golwg?*	983
Problem o ran y Clyw?*	2412
Problem o ran Symudedd?*	3517
65 oed neu hŷn?	7504
Rhiant Sengl?	1064
Heb Ddeall?*	508
Ffactorau Risg Eraill?*	2000
0 larymau mwg yn gweithio	4283
Cyfanswm yr Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref	13838

Holiadur 'Y Bobl yr ydym yn eu Gwasanaethu'

(01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020)

Rhywedd	
Benyw	710
Gwryw	400
Trawsrywiol	3
Gwell ganddynt beidio â dweud	0
Cyfanswm	1113

Ystod Oedran	
O dan 16	38
17-24	91
25-34	297
35-44	202
45-59	204
60-64	70
65-74	107
75-84	80
85-94	23
95+	1
Gwell ganddynt beidio â dweud	0
Cyfanswm	1113

Cyfeiriadedd Rhywiol	
Deurywiol	14
Hoyw	11
Heterorywiol	968
Lesbiaidd	11
Arall	18
Gwell ganddynt beidio â dweud	91
Cyfanswm	1113

Iaith Gyntaf	
Saesneg	818
Cymraeg	279
Arall	16
Gwell ganddynt beidio â dweud	0
Gwag	0
Cyfanswm	1113

Ethnigrwydd	
Asiaidd (Bangladeshaid)	2
Asiaidd (Indiaidd)	1
Asiaidd (Arall)	3
Asiaidd (Pacistanaid)	3
Du (Affricanaid)	2
Du (Caribiaidd)	1
Tsieineaid	2
Cymysg (Asiaidd/Du)	3
Cymysg (Asiaidd/Gwyn)	7
Cymysg (Du/Gwyn)	4
Arall	7
Gwell ganddynt beidio â dweud	17
Gwyn	1061
Gwag	0
Cyfanswm	1113

Crefydd/Cred	
Bwdhaidd	5
Cristnogaeth	445
Hindŵaidd	2
Islam	1
Heb Grefydd/Anffyddiaeth	541
Iddewiaeth	2
Arall	42
Gwell ganddynt beidio â dweud	73
Blychau gwag	0
Cyfanswm	1113

Anabled	
Ydy	147
Nac ydy	942
Gwell ganddynt beidio â dweud	24
Cyfanswm	1113

Data Ymgysylltu ac Ymgynghori

Arolwg 'Oeddech chi'n gwybod?'

Rhywedd	
Benyw	514
Gwryw	380
Trawsrywiol	31
Gwell ganddynt beidio â dweud	0

Ystod Oedran	
O dan 16	17
17-24	60
25-34	200
35-44	180
45-59	270
60-64	76
65-74	80
75-84	26
85+	2
Gwell ganddynt beidio â dweud	13

Crefydd/Cred	
Anffyddiwr	85
Bwdhaidd	6
Cristnogaeth	454
Hindŵaidd	3
Islamaidd	3
Iddewig	3
Mwslimaidd	1
Heb grefydd	241
Crefydd arall	43
Gwell ganddynt beidio â dweud	87

Anabledd	
Ydy	104
Nac ydy	765
Gwell ganddynt beidio â dweud	55

Ethnigrwydd	
Asiaidd	
Bangladeshaid	0
Indiaidd	0
Tsieineaidd	1
Pacistanaid	2
Asiaidd Arall	2
Gwyn	
Prydeinig	823
Saesneg	0
Sipsi/Teithiwr Gwyddelig	0
Albanaidd	0
Gwyddelig	0
O Ogledd Iwerddon	0
Cymraeg	2
Cefndir Gwyn Arall	0
Du	
Caribiaidd	0
Affricanaidd	0
Du/Affricanaidd/Caribiaidd Arall	0
Cymysg	
Cymysg/Amryfal Arall	1
Gwyn & Du Affricanaidd	1
Gwyn a Du Caribiaidd	4
Gwell ganddynt beidio â dweud	44
Arall	11

Cyfeiriadedd Rhywiol	
Deurywiol	30
Hoyw	17
Heterorywiol	757
Lesbiaidd	13
Gwell ganddynt beidio â dweud	88
Trawsrywiol	0
Arall	13

Data Ymgysylltu ac Ymgynghori

Ymgynghori ynghylch Cynllun Corfforaethol 2020-2025

Rhywedd	
Benyw	50
Gwryw	67
Trawsrywiol	5
Gwell ganddynt beidio â dweud	2

Ystod Oedran	
O dan 16	1
17-24	3
25-34	20
35-44	20
45-59	37
60-64	10
65-74	23
75-84	9
85+	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	1

Crefydd/Cred	
Anffyddiwr	14
Bwdhaidd	0
Cristnogaeth	63
Hindŵaidd	0
Islamaidd	1
Iddewig	0
Mwslimaidd	0
Heb grefydd	25
Crefydd arall	3
Gwell ganddynt beidio â dweud	15

Anabledd	
Ydy	14
Nac ydy	102
Gwell ganddynt beidio â dweud	6

Ethnigrwydd	
Asiaidd	
Bangladeshaid	0
Indiaidd	0
Tsieineaidd	2
Pacistanaid	0
Asiaidd Arall	0
Gwyn	
Prydeinig	109
Saesneg	0
Sipsi/Teithiwr Gwyddelig	0
Albanaidd	0
Gwyddelig	0
O Ogledd Iwerddon	0
Cymraeg	0
Cefndir Gwyn Arall	0
Du	
Caribiaidd	0
Affricanaidd	0
Other Du / Affricanaidd / Caribiaidd	0
Cymysg	
Cymysg Arall/ Multiple	1
Gwyn & Du Affricanaidd	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	9
Arall	1

Cyfeiriadedd Rhywiol	
Deurywiol	3
Hoyw	0
Heterorywiol	103
Lesbiaidd	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	15
Trawsrywiol	0
Arall	1

Data Ymgysylltu ac Ymgynghori

Ymgynghori ynghylch Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024

Rhywedd	
Benyw	9
Gwryw	23
Trawsrywiol	1
Gwell ganddynt beidio â dweud	0

Ystod Oedran	
O dan 16	1
17-24	6
25-34	9
35-44	14
45-59	1
60-64	0
65-74	0
75-84	1
85+	1
Gwell ganddynt beidio â dweud	12

Crefydd/Cred	
Anffyddiwr	1
Bwdhaidd	0
Catholig	2
Cristnogaeth	16
Hindŵaidd	0
Islamaidd	0
Iddewig	0
Mwslimaidd	1
Heb crefydd	11
Crefydd arall	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	3

Anabledl	
Ydy	4
Nac ydyd	27
Gwell ganddynt beidio â dweud	2

Ethnigrwydd	
Asiaidd	
Bangladeshaid	0
Indiaidd	0
Tsieineaidd	0
Pacistanaid	1
Asiaidd Arall	0
Gwyn	
Prydeinig	29
Gwyddelig	1
Ewropeaidd	0
Cymraeg	0
Cefndir Gwyn Arall	0
Du	
Caribiaidd	0
Affricanaidd	0
Du/Affricanaidd/Caribiaidd Arall	0
Cymysg	
Gwyn ac Asiaidd	1
Gwyn & Du Affricanaidd	0
Gwyn a Du Caribiaidd	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	0
Arall	11

Cyfeiriadedd Rhywiol	
Deurywiol	0
Hoyw	0
Heterorywiol	32
Lesbiaidd	0
Gwell ganddynt beidio â dweud	1
Trawsrywiol	0
Arall	0

Data a Gasglwyd trwy System Cofnodi Digwyddiadau y Gwasanaeth (1 Ebrill 2019 – 30 Tachwedd 2019)

Oed y Dioddefwr	Cyfanswm
O dan 16	221
17-25	222
26-40	276
41-55	272
56-70	375
70+	771
99	5
102	2
Oedran yn anhysbys	474
Cyfanswm	2618

Rhywedd	Cyfanswm
Benyw	1178
Gwryw	1418
Anhysbys	17
Heb ei Nodi	5
Cyfanswm	2618

Ethnigrwydd	Cyfanswm
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	7
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd Arall	9
Du or Du Prydeinig- Affricanaidd	3
Du or Du Prydeinig- Caribbean	3
Tsieineaidd	12
Cymysg - Cymysg Arall	2
Anhysbys/Heb ei Nodi	83
Gwyn - Prydeinig	2378
Gwyn - Gwyddelig	12
Gwyn - Gwyn Arall	31
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	9
Du neu Ddu Prydeinig - Du Arall	0
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	2
Cyfanswm	2618

ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

1 Ebrill 2019-31 Mawrth 2020

Rhagor o wybodaeth

I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni trwy ein gwefan, www.tancgc.gov.uk, ein ffonio ar **0370 60 60 699** neu ysgrifennu atom ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, Sir Gâr SA31 1SP.

Fel arall, gallwch anfon neges e-bost atom i mail@mawwfire.gov.uk

Fersiynau Amgen

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, gan gynnwys fersiwn sain,

cysylltwch â ni ar: **0370 60 60 699** neu trwy neges e-bost: mail@mawwfire.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Byddwn yn ymateb i'r ddau mewn modd cyfartal ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed.

We welcome calls in Cymraeg and English.

HOFFI DILYN RHANNU



LIKE FOLLOW SHARE

Ein Negeseuon
Diogelwch

Our Safety
Messages

Adnoddau Dynol
Human Resources